

# Trefnu sioe yn eich cymuned

Mae Noson Allan yn helpu grwpiau cymunedol yng Nghymru i lwyfannu sioeau proffesiynol yn eu hardaloedd lleol drwy ddileu'r perygl ariannol iddynt.

## Sut mae'n gweithio

### Cyn y sioe

Cysylltwch â ni yn swyddfa Noson Allan neu drwy [www.nosonallan.org.uk](http://www.nosonallan.org.uk) am syniadau gwyb am sioeau addas i'ch neuadd neu gallwch drefnu gyda pherfformwyr proffesiynol a welsoch rywle arall (ond cofiwch nad ymdriniwn â phantos neu artistiaid teyrnged). Cysylltwch â'r perfformiwr, sicrhewch ei fod yn gweddu i'ch lleoliad, gofynnwch beth sydd eisiau arno ac a all ddarparu deunydd cyhoeddusrwydd a phenderfynwch yn llac ar ddyddiad. Gwnewch gais i ni naill ai ar-lein neu drwy lenwi ffurflen syml (tri thudalen yn unig) o leiaf bedair wythnos cyn y digwyddiad neu'n gynharach os yw'n bosibl. Dylai pris tocynnau adlewyrchu gwerth y sioe a'r hyn sy'n fforddiadwy yn eich cymuned; gallwn ni argraffu tocynnau yn rhad ac am ddim i chi pe dymunech.

Noson Allan fydd yn talu ffioedd y perfformiwr a ll amrywio'n fawr, hyd at £900. Cewch y perfformiwr am bris safonol is â chymhorthdal sydd ar hyn o bryd yn 50% o'r ffi lawn hyd at fwyafswm o £300 (£200 os yw'r lleoliad mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf). Ym mhob achos bron, gallwn drefnu bod hyn wedi'i warantu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan eich awdurdod lleol fel bod eich risg o gollu arian yn cael ei ddileu neu ei leihau gymaint â phosibl.

Mae'n bosibl trefnu sioeau drutach sy'n costio'n fwy na £900 hyd at fwyafswm o £2,000 os gallwch roi'r arian ychwanegol tuag atynt.

## Cynnal y Digwyddiad

Chi sy'n gyfrifol am gynnal y digwyddiad felly gwnewch yn siŵr bod gennych eraill i'ch helpu gyda'r gwaith. Gofynnwch i'ch awdurdod lleol a oes angen Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro neu drwydded arall. Os oes, rhaid ei geisio o leiaf ddeg diwrnod cyn y digwyddiad. Os na cheisiwch y drwydded mewn pryd, rhaid canslo'r digwyddiad a chi fydd yn gyfrifol am ffioedd canslo.

Gofynnwch i'r perfformwyr pryd cewch gyhoeddusrwydd neu wybodaeth i'r wasg oddi wrthynt, faint o'r gloch y bydd angen iddynt osod pethau ar gyfer y sioe, sut trefnir y llwyfan, ble gallant newid dillad, unrhyw faterion technegol ac a fydd eisiau bwyd neu ddiod arnynt ar y noson.



Theatr Bara Caws - Un Nos Ola Leuad  
(llun: Dewi Glyn Jones)

 **Noson Allan**  
**Night Out**

Hyrwyddwch y digwyddiad yn y wasg leol ac yn eich cymuned; rhwch bosteri i fyny, cofiwch y cyfryngau cymdeithasol a phwysigrwydd y gair ar y stryd. Cofiwch gydnabod cefnogaeth Noson Allan a chynnwys gwybodaeth am hygyrchedd i'r lleoliad gan bobl anabl (mae logos ar gael o [www.nosonallan.org.uk](http://www.nosonallan.org.uk)).

Yn y digwyddiad ei hun, cyflwynwch y sioe o'r llwyfan a chrybwyll yr egwyl (os oes un), soniwch am faterion sylfaenol iechyd a diogelwch (allanfeydd tân, diffodd ffonau symudol ac ati) a chydnabod cefnogaeth Noson Allan ac unrhyw noddwyr eraill. Heblaw y dywed y perfformwyr fel arall, caewch y bar neu'r siop fwyd yn ystod y perfformiad a gwnewch yn siŵr nad â'r raffl adeg yr egwyl ymlaen yn rhy hir. A mwynhewch!

## Wedi'r sioe

(gall trefniadau ariannol amrywio ychydig)

Ni sy'n talu'r perfformiwr eu ffi lawn wrth i ni gael anfoneb a ffurflen adrodd.

Chi sy'n llenwi'r ffurflen adrodd syml gan ddatgan eich incwm o docynnau ac anfon unrhyw incwm hyd at y swm a warantwyd o £300/£200 at Swyddfa Noson Allan.

Os na chodwch £300/£200 ond mae gennych warant gan yr awdurdod lleol, bydd hon yn gwneud yn iawn am y gwahaniaeth. Anfonwch atom yr holl incwm sydd gennych a ni fydd yn anfon bil at yr awdurdod lleol am y gweddill. Disgwyliwn i chi geisio eich gorau glas i werthu tocynnau.

Os gwnewch fwy na £300/£200, gallwch gadw'r £100 nesaf o elw.

Dylid dychwelyd unrhyw arian mwy na hynny, hyd at gost lawn y perfformiwr, i Swyddfa Noson Allan fel y gallwn gefnogi digwyddiadau pobl eraill. (Cofiwch fod hyn ond yn wir am yr incwm o docynnau.) Chi sy'n cadw unrhyw arian a godir o werthu lluniaeth neu docynnau raffl.

## Cysylltwch â ni

Gallwch lawrlwytho rhagor o daflenni cymorth a chyngor am hyrwyddo eich digwyddiad gan gynnwys 'Paratoi am Noson Allan Wych', 'Mae'n hawdd bod yn ddwyiethog' o [www.nosonallan.org.uk](http://www.nosonallan.org.uk) neu cysylltwch â Noson Allan,  
Cyngor Celfyddydau Cymru,  
Plas Bute,  
Caerdydd, CF10 5AL  
Ffôn: 029 2044 1340  
E-bost: [ymholiad@nosonallan.org.uk](mailto:yhmoliad@nosonallan.org.uk)



Siyaya – dawnsywyr Affricanaidd ym Merthyr Tudful  
(Illun: Hazel Hannant)